

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn ymroddedig i ddiogelu eich data personol pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu sut rydym yn defnyddio gwybodaeth amdanoch chi a sut rydym yn amddiffyn eich preifatrwydd. Nodwch, yn ychwanegol at yr hysbysiad preifatrwydd cyffredinol hwn, efallai y bydd GTAGC yn cyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau prosesu data penodol.

Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 y DU yn llywodraethu prosesu data personol.

Y data a gasglwn amdanoch chi

I gyflenwi ein gwasanaethau yn effeithiol, efallai y bydd angen i GTAGC brosesu data personol amdanoch chi. Mae data personol yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn byw ohoni. Gall yr adnabod hwn ddigwydd oherwydd yr wybodaeth ar ei phen ei hun neu ar y cyd â gwybodaeth arall ym meddiant y Gwasanaeth.

Mathau o ddata personol	Manylion
Manylion unigol	Enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill (e.e. ebost a rhif ffôn), rhyw, statws priodasol, dyddiad a man geni, cenedl, cyflogwr, teitl swydd a hanes cyflogaeth, manylion teulu gan gynnwys eu perthynas â chi.
Categoriâu arbennig o ddata personol	Mae gan rai categorïau o ddata personol amddiffyniad ychwanegol. Y categorïau hyn yw hil, tarddiad ethnig, gwleidyddiaeth, crefydd, aelodaeth o undeb llafur, geneteg, biometreg (lle caiff ei ddefnyddio i ddibenion adnabod), iechyd, bywyd rhywiol neu dueddfryd rhywiol.

Pam rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol er mwyn ein galluogi i ymgymryd â gwasanaethau rhwystro, amddiffyn ac argyfwng ar gyfer y cymunedau a wasanaethwn. Gellir casglu data personol ar gyfer gwasanaethau diffodd tân ac argyfwng, rheoli ymatebion i danau, digwyddiadau a damweiniau ffordd, cadw ein cofnodion a'n cyfrifon ein hunain a rheoli asedau'r gwasanaeth tân. Rydym hefyd yn prosesu gwybodaeth bersonol gan ddefnyddio systemau teledu cylch cyfyng ar ein hadeiladau a'n cerbydau i fonitro a chasglu delweddau gweledol i ddibenion diogelwch a rhwystro a chanfod troseddau. Mae rhesymau eraill dros gasglu data personol yn cynnwys:

- ymgymryd ag ymweliadau Diogel ac Iach;
- pwrpasau cyflogaeth a hyfforddi staff;
- gwirio ansawdd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau;
- ymchwilio i unrhyw bryderon neu gwynion ynglŷn â'n gwasanaethau;
- ymchwilio i a chynllunio gwasanaethau newydd;
- gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng.

O ble gallem gasglu eich data personol?

Gallem gasglu eich data personol o'r ffynonellau canlynol:

- chi;
- aelodau eich teulu, eich cynrychiolydd, eich cyflogwr, neu aelod o'r cyhoedd sydd yn poeni am eich lles;
- cyrff cyhoeddus megis yr heddlu, gwasanaeth ambiwlans, cynghorau lleol a'r GIG;
- cyrff eraill yr ydych wedi rhoi caniatâd iddyn nhw rannu eich gwybodaeth.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol.

Mae gennym yr hawl i brosesu eich data personol os yw o leiaf un o'r canlynol yn berthasol:

- mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus dilys Gwasanaeth Tân ac Achub fel y diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;
- rhoddwyd eich caniatâd penodol ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau ategol sy'n ein helpu ni i ymgymryd â'n dyletswyddau cyhoeddus i wella, amddiffyn ac achub bywydau;
- mae angen prosesu er mwyn cydweithredu gyda chyrff cyhoeddus megis yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans wrth ymgymryd â swyddogaethau diogelwch cyhoeddus;
- i ddibenion recriwtio, cyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu gytundeb cyfunol;
- ymgymerir â'r prosesu gan gorff di-elw gydag amcan gwleidyddol, athronyddol, crefyddol neu undeb llafur cyn belled:
 - â bod y prosesu ond yn ymwneud ag aelodau neu gyn-aelodau (neu rai sydd â chysylltiad rheolaidd gyda nhw mewn perthynas â'r dibenion hynny);
 - nad oes datgeliad i drydydd parti heb ganiatâd.

Sut ydym ni'n cadw'r wybodaeth yn ddiogel?

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod eich data personol yn ddiogel. Er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod neu ddatgeliad, mae gennym weithdrefnau ffisegol, electronig a rheolaethol ar waith i amddiffyn a diogelu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mesurau diogelwch ffisegol mewn manau gwaith;
- hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelwch gwybodaeth i'n staff;
- rheolaethau mynediad ar systemau;

- amgryptio data personol.

Gyda phwy allen ni rannu eich gwybodaeth bersonol?

Medrwn ddefnyddio gwasanaethau cwmniâu masnachol (darparwyr iechyd galwedigaethol, er enghraifft) i storio a rheoli eich gwybodaeth ar ein rhan. Lle mae gennym drefniadau o'r fath, mae contract, memorandwm o ddealltwriaeth neu gytundeb rhannu gwybodaeth bob amser yn bodoli i sicrhau bod gofynion deddfwriaeth ar drin data personol yn cael eu bodloni. Efallai y byddwn yn storio eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partion sydd wedi eu comisynu i hyfforddi ein staff neu wirfoddolwyr.

Weithiau mae'n ofniad cyfreithiol neu er budd diogelwch cyhoeddus i rannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill megis yr heddlu, y GIG neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Medrwn hefyd rannu eich gwybodaeth bersonol lle mae rheswm diogelwch cyhoeddus cyfiawn yn bodoli. Enghreifftiau o hyn:

- i ymchwilio i, canfod a rhwystro trosedd, neu os oes angen i ni wneud hynny dan y gyfraith;
- helpu'r heddlu ac awdurdodau perthnasol i adnabod tueddiadau a phroblemau yn ymwneud â thanau;
- os oes risg difrifol i'r cyhoedd, ein staff neu weithwyr proffesiynol eraill;
- i amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed.

Sut medrwn chi weld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch?

Mae gennych hawl i ofyn am yr holl wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch pan fyddwn yn derbyn cais ysgrifenedig gennych. Byddwn fel rheol yn dangos i chi bopeth rydym wedi ei gofnodi amdanoch, ac mae hyn yn berthnasol i gofnodion papur ac electronig. Fodd bynnag, ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth sy'n cynnwys:

- gwybodaeth gyfrinachol am bobl eraill, neu
- os yw er budd diogelwch a sicrwydd y cyhoedd i beidio â dangos yr wybodaeth honno i chi.

Eich hawliau a'ch data personol

Er gwaethaf unrhyw eithriad perthnasol dan y ddeddfwriaeth, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'ch data personol:

- yr hawl i ofyn am gopi o'ch data personol sydd gennym ni amdanoch chi;
- yr hawl i ofyn ein bod yn cywiro unrhyw wybodaeth bersonol os ceir ei bod yn anghywir neu'n hen;
- yr hawl i ddileu eich data personol nad yw bellach yn angenrheidiol i GTAGA gadw data o'r fath;
- yr hawl i ddiddymu caniatâd i brosesu eich data at unrhyw adeg;
- yr hawl i ofyn bod GTAGC yn anfon eich data i gorff arall lle'n berthnasol;

- lle mae anghydfod ynglyn â chywirdeb neu brosesu eich data personol, mae gennych hawl i ofyn bod cyfyngiad yn cael ei roi ar brosesu pellach;
- yr hawl i wrthwynebu i brosesu data personol lle'n briodol. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o'r data a broseswn yn cael ei wneud yn seiliedig ar ymgymryd â dyletswydd statudol er budd y cyhoedd, mae cyfyngiadau i'r hawl hon;
- yr hawl i gofrestru cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Prosesu pellach

Os dymunwn ddefnyddio eich data personol i ddibenion newydd nad ydynt yn dod dan yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, yna byddwn yn rhoi hysbysiad newydd i ch yn esbonio'r defnydd newydd hwn cyn dechrau prosesu ac yn bodi'r pwrpasau perthnasol a'r amodau prosesu. Lle bynnag y bo angen, byddwn yn gofyn am eich caniatâd chi ymlaen llaw cyn y prosesu newydd.

Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion, neu os ydych yn dymuno defnyddio'r holl hawliau perthnasol, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar: 01745 535250, Epost: dpo@nwales-fireservice.org.uk, neu drwy wefan GTAGC yn <http://www.nwales-fireservice.org.uk/contact-us/>.

Medrwhc gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy fynd i'w wefan yn www.ico.org.uk, trwy ffonio 0303 123 1113 neu ysgrifennu at:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF